



ARUP

CiNER Glass Limited

# Cyfrol IV: Crynodeb Annhechnegol

Cyfleuster Gweithgynhyrchu Poteli Gwydr y Ddraig

DRAGON-ARUP-ENVZ-XX-RP-YE-000006
7 Ionawr 2022



# Cynnwys


1. Beth yw Cyfleuster Gweithgynhyrchu Poteli Gwydr y Ddraig?
2. Beth sy’n cael ei gynnig?
3. Sut mae’r cynlluniau wedi esblygu?
4. Sut byddai Cyfleuster Gweithgynhyrchu Poteli Gwydr y Ddraig yn cael ei adeiladu?
5. Crynodeb o ganfyddiadau’r Datganiad Amgylcheddol
6. Sut i gael gwybod mwy



# 1. Beth yw Cyfleuster Gweithgynhyrchu Poteli Gwydr y Ddraig?

Mae Cyfleuster Gweithgynhyrchu Poteli Gwydr y Ddraig yn ddatblygiad arfaethedig wedi ei leoli yn Ystad Ddiwydiannol Rasa i gynhyrchu a dosbarthu poteli gwydr. Mae’r safle wedi’i ddyrannu o fewn Parth Menter Glynebwy, un o wyth Parth Menter ledled Cymru, ac mae’n canolbwyntio yn bennaf ar y sector deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch. Mae’r rhagolygon yn nodi y bydd y cyfleuster yn creu tua 671 o swyddi yn gysylltiedig â gweithredu a chynnal y cyfleuster a thua 450 o swyddi yn ystod cyfnod brig y gwaith adeiladu.


Mae cyfleusterau gweithgynhyrchu gwydr CiNER Glass Ltd yn amgylchoedd technoleg uchel, y dyhead yw cynllunio cyfleuster i gefnogi gweithrediad technolegau uwch yn y diwydiant pecynnu gwydr, o systemau cynhyrchu a rheoli o’r radd flaenaf, i system samplu ac ailgylchu awtomatig. Mae CiNER Glass Ltd. wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd hyfforddi a chyflogi ar gyfer pobl leol a rhoi hwb i’r economi leol drwy’r weledigaeth i adeiladu canolfan beirianneg ragorol ym maes technoleg wydr yng Nghymru.

Cyflwynir y Datganiad Amgylcheddol (ES) gyda’r cais cynllunio. Mae’n disgrifio effeithiau amgylcheddol y datblygiad arfaethedig yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017. Crynodeb Annhechnegol (NTS) o’r ES yw hwn, sy’n rhoi trosolwg o’r cynigion ac yn crynhoi canlyniadau’r asesiad.

## Lleoliad y Safle

Mae’r safle wedi’i leoli yn Ystad Ddiwydiannol Rasa i’r gogledd o Lynebwy, Blaenau Gwent, yn ne Cymru. Mae’n tua 21.5ha ac yn cynnwys plot gwag yn ymyl cyfleusterau adeiledig yr ystad ddiwydiannol. Mae’r ystad ddiwydiannol wedi’i lleoli ar y llethrau wrth droed Mynydd Llangynidr, tua 400m i’r de o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fel y dangosir yn Ffigur 1.

Mae’r safle mewn lleoliad strategol yn ymyl yr A465, Ffordd Blaenau’r Cymoedd ym mhen uchaf Cymoedd de Cymru, tua 700m i’r gogledd o bentref Rasa a 3km i’r gogledd o ganol tref Glynebwy. Mae’r safle tua 10km i’r gogledd-ddwyrain o Ferthyr Tudful a thua 4km i’r gorllewin o’r Fenni, y ddwy gytref drefol fawr agosaf.




Ffigur 1: Lleoliad y safle a’r cyd-destun o’i amgylch

# 2. Beth sy'n cael ei gynnig?


Mae Cyfleuster Gweithgynhyrchu Poteli Gwydr y Ddraig yn cynnwys nifer o gydrannau ar wahân ar gyfer gweithgynhyrchu a dosbarthu poteli gwydr fel y dangosir yn Ffigur 2 a Ffigur 3.

Prif Ddatblygiad

- Dwy ffwrnais a hidlyddion a chyrn simdde cysylltiedig, tua 75m o uchder;
- Dau adeilad a storfeydd gwydrach, tua 40m o uchder, ar gyfer storio a phrosesu gwydr a wrthodwyd neu wedi'i ailgylchu;
- Adeilad crynhoi a seilos ar gyfer storio a chymysgu deunyddiau crai, tua 40m o uchder;
- Dwy linell gynhyrchu ar gyfer prosesu poeth ac oer, archwilio a phecynnu poteli gwydr (tua 80,000m$^2$ o Ardal Fewnol Gros) gan gynnwys gweithdai ac ardaloedd storio;
- Man swyddfa a chyfleusterau lles gan gynnwys ffreutur, clafdai a chyfleusterau newid (tua 10,300m$^2$ o Ardal Fewnol Gros);
- Warws wedi'i awtomeiddio ar gyfer storio a dosbarthu poteli gwydr (tua 16,000m$^2$ o Ardal Fewnol Gros);
- Adeilad cyfleustodau sy'n cynnwys man ar gyfer peiriannau a gweithdai (tua 12,100m$^2$ o Ardal Fewnol Gros);
- Storfeydd deunydd gwastraff, tua 5m o uchder;
- Adeilad peiriannau ar ei ben ei hun gan gynnwys cyfleusterau is-orsaf ac adeiladau a chyfleusterau storio tanwydd wrth gefn;
- Swyddfa ddiogelwch y brif fynedfa a'r bont bwyso gysylltiedig;
- Ardal llawr caled allanol ar gyfer storio deunyddiau, parcio a llwytho.



Ffigur 2: Cynllun a thirlunio dangosol




Argraff gan Artist

Ffigur 3: Cynllun dangosol o’r cynigion

### Seilwaith Ategol

Mae angen seilwaith ategol er mwyn galluogi gweithrediadau'r safle, gan gynnwys: pyllau cronni ar gyfer dŵr wyneb, cysylltiadau nwy, is-orsaf Western Power Distribution (gweithredwr Rhwydwaith Dosbarth), cyflenwad dŵr a chysylltiadau draenio, seilwaith diogelwch, cysylltiadau telathrebu, parcio beiciau, systemau atal llwch, goleuo, tirlunio a lliniaru ecolegol.

### Gwaith Gwella Oddi Ar y Safle

Cynigir camau gwella yn ychwanegol at unrhyw gamau lliniaru a/neu gydadferol, i roi rhagor o fudd i dderbynyddion ecolegol, y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol. Cynigir gwelliannau bioamrywiaeth ar y safle ac oddi arno. Darperir y rhan fwyaf o'r gwelliannau a'r enillion net drwy reoli cynefinoedd oddi ar y safle, gan gyflawni rhagnodiadau rheoli yn unol â'r hyn a nodir mewn cynlluniau rheoli gwarchodfeydd natur lleol sydd eisoes yn bodoli.

### Gweithredu'r gwaith

Rhagwelir y bydd y datblygiad arfaethedig yn dechrau gweithredu'r ffwrnais gyntaf yn 2024, a disgwylir i'r datblygiad arfaethedig fod yn gwbl weithredol yn 2026 gyda'r ddwy ffwrnais yn weithredol. At ddibenion yr asesiad, tybir mai 2024-2084 yw'r cyfnod gweithredol, ac y bydd y flwyddyn weithredu lawn gyntaf yn dechrau yn 2026.

Rhagwelir y bydd y cyfleuster yn creu tua 671 o swyddi yn gysylltiedig â gweithredu'r cyfleuster a fydd yn weithredol 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos drwy system sifftiau.

### Symudiadau cerbydau

Bydd angen cludo deunyddiau crai i'r gwaith arfaethedig a bydd angen cludo'r cynnyrch gorffenedig hefyd, sef y poteli gwydr, ar ôl eu cynhyrchu. Yn ystod y misoedd brig bydd 190 o deithiau dwy ffordd (cyfanswm o 380) y dydd gan Gerbydau Nwyddau Trwm ar gyfer cludo deunyddiau crai i'r safle, gan gynnwys tywod a lludw soda i gynhyrchu gwydr ac i gludo poteli gwydr oddi ar y safle ar ôl eu cynhyrchu.

Bydd cludo i'r safle yn digwydd rhwng 08:00 a 17:00, a bydd cludo o'r safle yn digwydd rhwng 06:00 a 22:00. Mae'r teithiau cludo yn debygol o fod yn uwch yn hanner cyntaf y dydd er mwyn gallu cludo a danfon poteli gwydr cyn 09:30.



Plannu coed yn y meysydd parcio



Ardal hamdden



Glaswelltir corsiog a rhostir wedi'u hadfer

Ffigur 4: Delweddau tirlunio dangosol

## Y Broses Weithredol

Mae dwy brif ardal ar wahân ar y safle ar gyfer y broses weithgynhyrchu i gynhyrchu poteli gwydr, fel y dangosir yn Ffigur 5 ac isod:

1. Cynhyrchu (gan gynnwys y ffwrnais gwneud gwydr, llinellau prosesu, ac ardal cefnogi prosesu).
2. Warws ar gyfer storio a dosbarthu poteli gwydr.


Dangosir y ddwy brif ardal hyn sy'n rhan o'r broses weithgynhyrchu yn Ffigur 5 sy'n dangos y broses o weithgynhyrchu poteli gwydr ar ffurf diagram.

Mae'r broses o weithgynhyrchu poteli gwydr yn dechrau gyda deunyddiau crai. Mae'r adeilad crynhoi yn cadw'r deunyddiau crai mewn seilos, a gyflenwir gan lorïau. Mae'r deunyddiau crai hyn yn cynnwys tywod silica, lludw soda a chalchfaen. Mae'r adeilad crynhoi yn mesur ac yn cymysgu'r deunyddiau crai cyn eu danfon ar gludydd i adeilad y ffwrnais drwy adeilad y gwydrach.

Gwydr wedi'i ailgylchu a'i falu yw gwydrach, sy'n barod i gael ei aildoddi. Mae adeilad y gwydrach yn storio ac yn cymysgu'r gwydr wedi'i ailgylchu â'r cymysgedd o ddeunyddiau crai. Yna danfonir y cymysgedd i'r ffwrneisi ar gludydd.

Mae'r cyfleuster cynhyrchu yn cynnwys dwy linell gynhyrchu. Mae pob llinell gynhyrchu yn cynnwys tair prif ardal: ffwrnais, ardal prosesu poeth ac ardal prosesu oer. Mae'r ddwy linell gynhyrchu wedi'u cysylltu ag adeilad cyfleustodau sy'n cadw'r newidyddion i bweru'r ffwrneisi a'r genaduron pŵer wrth gefn. Yna, byddai'r poteli gwydr yn gadael y llinell gynhyrchu ac yn mynd i mewn i'r warws wedi'i awtomeiddio i'w storio a'u dosbarthu yn berthynol i'r llinell sylfaen.

Mae ardal becynnu wedi'i lleoli ar ben draw'r llinellau cynhyrchu lle caiff y poteli eu crynhoi ar baledi cyn mynd i'r warws wedi'i awtomeiddio i'w storio a'u dosbarthu.




Ffigur 5: Prif ardaloedd y datblygiad arfaethedig

# 3. Sut mae’r cynlluniau wedi esblygu?

Mabwysiadwyd datblygiad dylunio gan gynnwys ystyried chwe egwyddor dylunio allweddol sef ***Gogwydd, Cyd-destun, Topograffeg, Seilwaith, Awyr Dywyll, Tirwedd*** er mwyn lleihau’r effeithiau andwyol ar yr amgylchedd a’r ardal gyffiniol cymaint â phosibl. Yn rhan o’r broses hon, datblygwyd dau brif senario ar gyfer cynllun y safle:


1. Prosesau cynhyrchu yn mynd o’r De i’r Gogledd, a’r warws wedi’i leoli yn y Gorllewin; a

2. Prosesau cynhyrchu yn mynd o’r Gorllewin i’r Dwyrain, a’r warws wedi’i leoli yn y De.

Trwy ystyried yr egwyddorion dylunio allweddol bwrwyd ymlaen â’r ail senario a gyflwynwyd ac mae’n cynnwys y manteision canlynol:

- Byddai’r cyrn simdde tal wedi’u lleoli yn bellach i ffwrdd o’r brif ffordd ac wedi’u lleoli mewn man mwy canolog yn yr ystad ddiwydiannol yn ymyl y strwythurau tal eraill;
- Mae’r cyfleuster yn galluogi mwy o gyfle i gadw llystyfiant a thirlunio ychwanegol i’r de o’r safle, yn ymyl yr A465, Ffordd Blaenau’r Cymoedd;
- Mae’r iard deunyddiau wedi’i leoli wrth ymyl mynedfa’r safle, gan ganiatáu ar gyfer cludo deunyddiau crai mewn modd mwy effeithlon;
- Mae’r prif ardaloedd lle ceir llawer o weithgarwch a phrosesau diwydiannol o amgylch y ffwrneisi, y storfeydd gwydrach a’r adeiladau crynhoi wedi’u lleoli ar ochr orllewinol y safle yn ymyl y lleiniau diwydiannol cyfagos ac ymhellach o’r ardaloedd preswyl i’r de o’r safle;
- Yn y gogwydd hwn gellid lleoli’r adeilad cyfleustodau yn ganolog rhwng y ddwy linell gynhyrchu, gan weithredu fel hyb canolog i’r cyfleuster;
- Bydd y datblygiad arfaethedig yn darparu cysylltiad swyddogaethol rhwng y prif ardaloedd, er mwyn creu llwybr prosesu wedi’i optimeiddio; ac
- Mae ôl troed cyffredinol y safle ar y gogwydd hwn yn llai, gan alluogi rhoi mwy o le ar gyfer tirlunio, lliniaru a chadw ardaloedd gwyrdd.

Mae Ffigur 6 yn nodi’r ddau opsiwn a ystyriwyd yn y broses o ddatblygu’r dyluniad cyn cwblhau’r dyluniad.




Opsiwn 1 – De i’r Gogledd




Opsiwn 2 – Gorllewin i’r Dwyrain

Ffigur 6: Opsiynau ar gyfer cynllun y safle

## Wyneb yr Adeilad

Cynhaliwyd astudiaethau i ddatblygu cysyniad ar gyfer golwg yr adeilad. Ystyriodd yr astudiaethau hyn y grid strwythurol, deunydd, lliw a golwg wyneb allanol yr adeilad ynghyd ag ymgynghoriad â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (y Cyngor).

O ystyried maint y cyfleuster, mae'n bwysig, trwy gydol y broses ddylunio, ystyried sut y bydd y deunydd a golwg orffenedig a ddewisir ar gyfer yr adeilad yn cuddio crynswth cyffredinol y cyfleuster ar y safle. Dylai'r datblygiad arfaethedig eistedd o fewn y cyffiniau a'r cyd-destun lleol a'r prif ystyriaethau yw sut y mae'n edrych yn y dirwedd ac yn erbyn y nenlinell.

Gan ddefnyddio golwg orffenedig fetelig adlewyrchol ar yr wyneb, byddai'r adeilad yn gallu addasu i'r safbwyntiau amrywiol yn lleol ac o bell, gan godi yn gywrain donau'r awyr, lliwiau naturiol y dirwedd o'i amgylch ac adeiladau cyfagos. Ystyriwyd bod defnyddio golwg orffenedig fetelig yn rhoi golwg oleuach i'r cyfleuster yn ei gyfanrwydd yn ogystal ag adlewyrchu'r cyd-destun lleol. Byddai defnyddio tonau tywyllach ar yr adeilad ond yn amlygu ei grynswth cyffredinol gan ymddangos fel adeilad mawr, trwm yn y dirwedd.

Byddai'r olwg orffenedig yn creu strwythur olau i'r hyn a fyddai fel arall yn grynswth mawr a byddai'r ansawdd adlewyrchol yn newid yn ddyddiol gan adlewyrchu'r tywydd a'r newid yn y tymhorau.

## Bioamrywiaeth a'r Dirwedd

Yn rhan o'r broses ddylunio, defnyddiwyd dull sensitif tuag at fioamrywiaeth gyda'r nod o ddylunio'r cynllun arfaethedig gan gadw cymaint o'r cynefin â phosibl a chreu cyfleoedd i'w wella, pan fo hynny'n bosibl, ar y safle yn ogystal â gweithio gyda'r Cyngor i nodi rhagor o gyfleoedd gwella oddi ar y safle. Pan fo'n bosibl, mae cynefinoedd presennol fel coetir a glaswelltir corsiog wedi'u cadw ym mhob rhan o'r cynllun a gogwydd y cyfleuster, yn ogystal â chyfluniad yr ardaloedd awyr agored gan gynnwys y maes parcio.

Mae *gweledigaeth dirwedd w*edi'i datblygu gyda'r cysyniad cyffredinol o greu tirwedd amlswyddogaethol a chadarn sy'n parchu ac yn ymateb i'r rhostir agored a chyd-destun diwydiannol y safle.

Bydd y mannau tirwedd yn cael eu hoptimeiddio er mwyn gwasanaethu swyddogaethau ecolegol, hamdden ar gyfer aelodau staff a rheoli dŵr yn gynaliadwy drwy ddefnyddio'r pum egwyddor sy'n sail i'r dyluniad:

1. Diogelu ac adfer
2. Pontio ac integreiddio
3. Hybu lles
4. Integreiddio seilwaith glas / elfennau dŵr
5. Lleol a chynaliadwy



Llun o baneli metelig adlewyrchol blaenorol

# 4. Sut byddai Cyfleuster Gweithgynhyrchu Poteli Gwydr y Ddraig yn cael ei adeiladu?

## Rhaglen

Byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael ei adeiladu dros gyfnod o ryw bedair blynedd gan ddilyn dull fesul cam (Ffigur 7):

*Cam 1*
Cynigir bod cam cyntaf y gwaith adeiladu yn dechrau yn ystod haf 2022, ar ôl cael caniatâd ar gyfer y cais cynllunio, gyda threfnu gweithgareddau a gwaith cloddio. Bydd y gwaith adeiladu yn dechrau wedyn yn ystod hydref 2022 ar gyfer uwch strwythur y ffwrnais gyntaf gyda'r nod y bydd yn weithredol erbyn Ch4 2024 yn dilyn rhaglen adeiladu o 18 mis.

*Cam 2*
Byddai'r gwaith o adeiladu'r ail ffwrnais yn cael ei wneud ochr yn ochr ag agweddau gweithredol y ffwrnais gyntaf ac yn dechrau yn 2025 gyda'r nod y bydd yn weithredol erbyn 2026 yn dilyn rhaglen adeiladu o 12 mis.

## Mynediad ar gyfer Adeiladu

Byddai cerbydau adeiladu yn cyrraedd ac yn gadael y safle ym mhen gorllewinol y cyfleuster arfaethedig yn ystod y cam adeiladu yn ogystal â'r cam gweithredu, a byddai symudiadau yn dod oddi ar yr A465, Ffordd Blaenau'r Cymoedd. Byddai'r fynedfa at ddibenion adeiladu (cerbydau a cherddwyr) yn cael ei reoli drwy'r brif fynedfa.

Disgwylir i gerbydau adeiladu ddefnyddio'r un llwybr â'r traffig presennol i'r ystad ddiwydiannol ac oddi yno. Mae'r llwybr hwn yn defnyddio'r prif lwybr y ceir arwyddion ar ei gyfer i'r safle o'r A465, Ffordd Blaenau'r Cymoedd. Byddai cerbydau yn cael eu cyfyngu rhag teithio drwy ardaloedd preswyl lleol Rasa.

## Traffig Adeiladu

Bydd symudiadau gan gerbydau nwyddau trwm yn cael eu cyfyngu cymaint ag y bo'n rhesymol bosibl rhwng 8:00 a 09:00 a 16:30 i 18:00 er mwyn osgoi cyfnodau llif traffig.

## Oriau Gwaith Adeiladu


Disgwylir y bydd yr oriau gwaith craidd o ddydd Llun i ddydd Gwener 08:00 – 18:00; dydd Sadwrn 12:00 – 18:00 oni bai bod amgylchiadau eithriadol sy'n pennu bod angen gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau.

## Cynllun Rheoli y Cam Adeiladu

Mae Cynllun Rheoli Amgylcheddol amlinellol y Cam Adeiladu (CEMP) wedi'i baratoi sy'n cynnwys camau rheoli, a'r safonau i'w gweithredu trwy gydol cam adeiladu'r gwaith er mwyn osgoi a lleihau effeithiau yn ystod y cam adeiladu. Cynigir sicrhau cydymffurfiaeth â'r CEMP drwy'r amodau cynllunio.

## Swyddi Adeiladu

Rhagwelir y bydd 450 o swyddi yn cael eu creu yn ystod y cyfnod adeiladu brig, gan greu cyfleoedd cyflogaeth yn ystod y cam adeiladu. Mae CiNER Glass Ltd. wedi ymrwymo i weithio gyda chymunedau lleol i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i bobl leol.




Ffigur 7: Cynllun dangosol o'r camau adeiladu

# 5. Crynodeb o Ganfyddiadau'r Datganiad Amgylcheddol

Mae'r asesiad o'r effaith amgylcheddol (EIA) yn ofyniad strategol er mwyn bod â dealltwriaeth o effeithiau sylweddol tebygol ac i ddefnyddio'r broses i nodi dewisiadau ar gyfer atal, lleihau a monitro'r effeithiau hyn pan fo'n briodol. Mae'r asesiad hefyd yn nodi ac yn cynnig gwelliannau er mwyn cael effeithiau cadarnhaol pan fo hyn yn bosibl.

Cynhaliwyd ymarfer cwmpasu i ddechrau gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i nodi lle y gallai effeithiau sylweddol ddigwydd yn gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig. Penderfynwyd y dylid cynnwys yr agweddau canlynol ar yr amgylchedd yn yr EIA:

- Pennod 5 – Ansawdd Aer
- Pennod 6 – Newid Hinsawdd
- Pennod 7 – Ecoleg
- Pennod 8 – Iechyd
- Pennod 9 – Deunyddiau
- Pennod 10 – Sŵn a Dirgryniad
- Pennod 11 – Economaidd-gymdeithasol
- Pennod 12 – Trafnidiaeth
- Pennod 13 – Gweledol
- Pennod 14 – Yr Amgylchedd Dŵr
- Pennod 15 – Effeithiau Cronnol

## Ansawdd Aer

Archwiliodd y bennod ar ansawdd aer yr effeithiau ar bobl a'r ecoleg sy'n gysylltiedig â gweithgareddau adeiladu, gan gynnwys effeithiau o draffig adeiladu. Mae ansawdd aer yn ystyried yr holl lygryddion a'r allyriadau arogleuon posibl sy'n gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig pan fydd yn gweithredu'n llawn.

Bydd gweithgareddau adeiladu yn cael eu rheoli gan y CEMP a fydd yn cynnwys camau i reoli effeithiau ansawdd yn sgil adeiladu gan gynnwys llygryddion a llwch. Bydd Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP) yn cael ei baratoi gan y contractwr a'i ddefnyddio i reoli symudiadau cerbydau i'r safle.

Trwy weithredu'r camau a nodwyd yn y CEMP, nid ystyrir bod effeithiau ansawdd aer yn sgil gweithgareddau adeiladu yn sylweddol ar gyfer pobl nac ecoleg. Yn ogystal â hyn, yn ystod y cam adeiladu ni fyddai effeithiau negyddol sylweddol ar ansawdd aer yn sgil traffig adeiladu.

Mae'r asesiad ansawdd aer yn ystyried yr holl lygryddion a'r allyriadau posibl sy'n gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig yn ystod y cam gweithredu'n llawn. Nid yw effeithiau ansawdd aer yn sgil y cam gweithredu yn sylweddol i bobl a hynny ar gyfer yr holl lygryddion a aseswyd. Ni fydd unrhyw effeithiau sylweddol o ran arogleuon ychwaith.

Nid yw effeithiau ansawdd aer ar dderbynyddion ecolegol yn sgil y cam gweithredu yn sylweddol ychwaith.

## Newid Hinsawdd

Mae'r bennod ar newid hinsawdd yn asesu allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG), cadernid newid hinsawdd (CCR) ac effeithiau newid hinsawdd fel cyfuniad. Mae'r asesiad GHG yn mesur faint o allyriadau GHG a allai gael eu rhyddhau yn ystod y cam adeiladu a gweithredu ac mae'n nodi camau lliniaru er mwyn lleihau'r allyriadau hyn. Mae'r asesiad CCR yn gwerthuso effeithiolrwydd a chadernid y datblygiad arfaethedig i newid hinsawdd.

Yn ogystal â hyn, ystyrir effeithiau cyfunol y cynllun a'r newidiadau posibl yn yr hinsawdd ym mhob pwnc yn y bennod berthnasol o'r ES.

Yn ystod y cam adeiladu, byddai gweithgareddau adeiladu a defnydd o ddeunyddiau yn arwain at ryddhau allyriadau GHG. Mae camau lliniaru wedi'u hargymell er mwyn lleihau allyriadau GHG o'r cyfnod adeiladu.

Ar ôl ei gwblhau, byddai'r datblygiad arfaethedig yn allyrru GHG o ganlyniad i ddefnyddio ynni wrth weithredu'r offer trwm a'r peiriannau i gynhyrchu poteli gwydr, adeiladau, cludo, colli cynefinoedd, dal a storio carbon ac allyriadau wedi'u hymgorffori yn y gweithgareddau cynnal a chadw ac adnewyddu. Mae camau lliniaru wedi'u hargymell i leihau allyriadau GHG gweithredol.

Ni nododd yr asesiad CCR unrhyw risgiau sylweddol o ran newid hinsawdd. Mae hyn oherwydd bod camau lliniaru wedi'u cynnwys yn y dyluniad.

## Ecoleg

Mae'r asesiad ecoleg yn ystyried effeithiau ar gyfer y cam adeiladu a gweithredu; gan gynnwys colli cynefinoedd, gwahanu a niweidio cynefinoedd, a marwolaeth, anafiadau a tharfu ar rywogaethau.

Mae safle'r prosiect yn cynnwys clytwaith o gynefinoedd. Y cynefinoedd mwyaf arwyddocaol ar gyfer cadwraeth natur yn y safle yw'r clytwaith o laswelltir gwlyb a sych sydd â chyfoeth o rywogaethau sy'n i'w weld ar draws y llwyfandir diwydiannol yn rhannau canolog a gorllewinol y safle. Mae gan gynefinoedd y safle enw am gefnogi amrywiaeth o adar sy'n bridio, ystlumod sy'n chwilota am fwyd ac yn cymudo, moch daear, y fadfall ddŵr balfog, y fadfall gyffredin, a nifer o rywogaethau di-asgwrn-cefn ac amrywiaeth o rywogaethau o ffwng.

Mae Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Ystlumod Wysg a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Mynydd Llangatwg wedi'u lleoli tua 900m i ogledd-ddwyrain y safle. Yn ychwanegol at hyn, ceir nifer o safleoedd dynodedig lleol gan gynnwys Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur a Gwarchodfeydd Natur Lleol yn yr ardal gyffiniol, yn ogystal â choetir hynafol.

Mae effeithiau ar y derbynyddion ecolegol uchod wedi'u hystyried, o ystyried arfer gorau yn ystod gwaith adeiladu a gofyniad trwyddedu yn ogystal â chynigion tirlunio y safle. Bydd y camau lliniaru yn ystod y cam adeiladu yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, arfer da yn ystod gwaith adeiladu fel clirio llystyfiant mewn modd sensitif o dan oruchwyliaeth ecolegol, rhaglen dal ac adleoli ymlusgiaid ac amffibiaid (os oes rhai), cau setiau moch daear o dan drwydded (os oes angen), goleuo sensitif yn ystod y cam adeiladu a thrafodaethau byr gyda chontractwyr; a chadw a chreu cynefinoedd ar y safle i ddarparu cynefin ar gyfer cynefinoedd a chynnal a gwella cysylltedd ecolegol ar draws y safle, yn rhan o'r cynllun tirlunio.

Mae effeithiau posibl yn sgil allyriadau o'r awyr oherwydd y broses o weithgynhyrchu gwydr ar y safle dynodedig gan Ewrop, ACA Ystlumod Wysg gerllaw, wedi'u hasesu mewn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar wahân. Yn dilyn gwaith modelu manwl ar ansawdd aer, daethpwyd i'r casgliad na fyddai effeithiau o allyriadau o'r awyr yn sylweddol. Trwy weithredu camau lliniaru, cesglir na fyddai unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar uniondeb y safle dynodedig gan Ewrop, ACA Ystlumod Wysg.

Mae gan y cynllun arfaethedig y potensial i effeithio'n sylweddol ar gynefinoedd sydd o werth i gadwraeth natur gan gynnwys glaswelltir â chyfoeth o rywogaethau a ffwng nodedig yn y coetir â phlanhigion cymysg. Caiff yr elfennau hyn eu colli o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig, ond gwrthbwysir hyn drwy reoli cynefinoedd coetir a glaswelltir gerllaw, i liniaru a gwella'u cyflwr a chynyddu amrywiaeth y fflora a'r ffawna y maent yn eu cefnogi.

Trwy gamau lliniaru yn y dyluniad ac arfer gorau yn ogystal â chamau gwella yn ystod y cam adeiladu a gweithredu, ni ddisgwylir y byddai unrhyw effeithiau gweddilliol sylweddol ar dderbynyddion ecolegol a werthfawrogir.



1. Clytwaith amrywiol ar y llwyfandir uwch



2. Cwrs dŵr canolog



3. Prysgwydd dwys a choetir conwydd yn y de

Ffigur 8: Lluniau yr arolwg o'r safle

## Iechyd

Mae'r asesiad iechyd a lles yn ystyried sut y gallai'r datblygiad arfaethedig ddylanwadu ar nifer o benderfynyddion iechyd, sef agweddau ar yr amgylchedd sy'n dylanwadu ar iechyd unigolyn. Roedd y penderfynyddion iechyd a ystyriwyd yn cynnwys:

- Ansawdd aer;
- Yr amgylchedd sŵn;
- Trosedd a diogelwch y gymuned; a'r
- Gallu i gael gwaith a hyfforddiant.

Ni nodwyd unrhyw effeithiau iechyd ar gyfer y cam adeiladu gan gynnwys effaith ansawdd aer, llwch a sŵn yn sgil y pellter o'r derbynyddion a'r camau adeiladu safonol a weithredir i leihau ffynonellau allyriadau. Adroddodd yr asesiad fân effeithiau buddiol yn sgil y cynnydd mewn cyfleoedd cyflogaeth yn ystod cam adeiladu'r cynllun arfaethedig.

Yn ystod y cam gweithredu, mae'n debygol y bydd tua 671 o gyfleoedd cyflogaeth uniongyrchol; gan gynnwys 80% o swyddi technegol, 18% o rai peirianyddol a gweinyddol a 2% o rai rheoli. Mae'n debygol y bydd y swyddi hyn yn cael eu llenwi gan bobl sy'n byw yn y rhanbarth, a rhai ohonynt o bosibl yn byw yn y cymunedau lleol. Byddai hyn yn cael ei wella yn fwy pe byddai'r datblygiad arfaethedig yn cynnig cyfleoedd hyfforddi sy'n benodol i bobl yn y cymunedau lleol.

Pan fydd wedi'i gwblhau, byddai nifer uchel y swyddi a fyddai'n cael eu creu yn uniongyrchol drwy weithredu'r datblygiad arfaethedig yn darparu effeithiau buddiol sylweddol a rhagor o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant.

## Deunyddiau

Mae'r asesiad deunyddiau yn ystyried y mathau o ddeunyddiau sydd eu hangen, a faint ohonynt, ac effaith defnyddio'r deunyddiau hyn ar y gallu i gael gafael arnynt yn yr ardal leol a rhanbarthol. Mae'r asesiad gwastraff yn ystyried y mathau o wastraff sy'n debygol o ddeillio o'r datblygiad arfaethedig, a faint ohonynt, a, gan ystyried y modd o reoli'r gwastraff hwn, yr effaith ar gapasiti safleoedd tirlenwi yn y rhanbarth.

Yn ystod y cam adeiladu, byddai gormod o ddeunydd yn cael ei gynhyrchu, felly byddai angen mewnforio swm dibwys o ddeunydd adeiladu sylfaenol ychwanegol (e.e. agregau a thywod) i'r safle fel na fyddai unrhyw effaith sylweddol ar y gallu i gael gafael ar ddeunyddiau sylfaenol. Mae'r deunyddiau wedi'u gweithgynhyrchu sydd ar gael yn y rhanbarth o'u cymharu â maint y datblygiad yn golygu na fyddai'r datblygiad yn cael effaith sylweddol ar y gallu i gael gafael arnynt.

Ni fyddai gweithredu'r datblygiad yn achosi effaith sylweddol, gan fod deunyddiau a ddefnyddir yn ystod y cam gweithredu naill ai ar gael yn rhwydd neu (ar gyfer nifer o ddeunyddiau) byddai'r rhain yn dod o ffynhonnell dramor oherwydd ansawdd a chyflenwad. Byddai'r potensial ar gyfer unrhyw effaith ar y cyflenwad o ddeunyddiau yn cael ei leihau ymhellach drwy ddefnyddio gwydrach (gwydr wedi'i ailgylchu).

Roedd yr asesiad gwastraff yn cynnwys ystyriaeth o effaith gormod o ddeunyddiau a gynhyrchir gan waith cloddio yn ystod y cam adeiladu ar gapasiti safleoedd tirlenwi rhanbarthol. Pennwyd bod gwastraff adeiladu a gweithredu arall y tu allan i gwmpas yr asesiad oherwydd bod gan y cyfleusterau rheoli gwastraff lleol a rhanbarthol ddigon o gapasiti ar gyfer y gwastraff y disgwylir ei gynhyrchu.

Byddai dyluniad y gwaith cloddio yn achosi tua 15,000m³ o ddeunydd gormodol y bydd angen ei waredu. Fodd bynnag, ni fyddai effaith sylweddol yn digwydd yn ystod y cam adeiladu gan fod gan safleoedd tirlenwi ar gyfer gwastraff anadweithiol, nad yw'n beryglus a pheryglus ddigon o gapasiti fel nad yw'r gwastraff a gynhyrchir o'r datblygiad arfaethedig yn sylweddol wrth ei gymharu. Yn ogystal â hyn, ceisir cyfleoedd i ailddefnyddio'r deunydd hwn mewn prosiectau eraill yn yr ardal leol, yn unol ag egwyddorion economi gylchol a'r holl ofynion rheoleiddiol.



## Sŵn a dirgryniad

Mae'r asesiad sŵn a dirgryniad yn ystyried effeithiau posibl sŵn a dirgryniad yn sgil adeiladu a gweithredu'r datblygiad arfaethedig ar y derbynyddion preswyl a di-breswyl sensitif agosaf.

Mae'r hinsawdd sŵn o amgylch y datblygiad arfaethedig wedi'i ddominyddu gan sŵn traffig o'r A465 a rhywfaint o gyfraniad gan symudiadau cerbydau nwyddau trwm ac eitemau o offer trwm sy'n gwasanaethu'r unedau diwydiannol cyfagos.


Yn ystod y cam adeiladu, ni fyddai sŵn o'r gweithgareddau adeiladu nac o draffig cerbydau nwyddau trwm yn arwain at nodi effeithiau sylweddol yn y derbynyddion preswyl na di-breswyl.

Roedd y lefelau sŵn adeiladu uchaf o ganlyniad i waith rhagarweiniol, gwaith cloddio a gosod seilbyst. Rheolir gweithgareddau adeiladu, gan gynnwys gwaith cloddio a gosod seilbyst drwy'r CEMP. Trwy'r cynllun hwn ystyrir rhagor o gamau i ddileu dirgryniad o waith adeiladu, wedi'i lywio gan wybodaeth fanylach am weithgareddau adeiladu.

Yn ystod y cam gweithredu, ni ddisgwylir i lefelau sŵn fod yn uwch na'r sŵn cefndir ger derbynyddion cyfagos, ac eithrio mymryn o gynnydd yn ystod y nos a ragwelir ar loriau uchaf preswylfeydd yn union gyferbyn â'r datblygiad arfaethedig. Ystyriwyd y rhain yn rhai mân ac felly ni nodwyd unrhyw effeithiau sylweddol.

Rhagwelwyd y byddai derbynyddion preswyl ymhellach i ffwrdd o'r datblygiad arfaethedig yn clywed lefelau sŵn uwchlaw lefel y sŵn cefndirol yn ystod y nos, ond gan fod lefelau sŵn cefndirol yn isel iawn yn y lleoliad hwn, nid yw hyn yn achosi effaith sylweddol.

Ni nodwyd unrhyw effeithiau sylweddol mewn derbynyddion di-breswyl.




Ffigur 9: Llwybrau mynediad i'r safle

## Trafnidiaeth

Mae'r asesiad traffig a thrafnidiaeth yn asesu'r effeithiau sy'n ymwneud â'r oedi posibl i draffig ffordd, oedi i gerddwyr a beicwyr, amwynderau cerdded a beicio, diogelwch ar y ffordd, y gallu i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, a'r potensial ar gyfer rhagor o wahanu cymunedau.


Yn ystod y cam adeiladu, bydd cynnydd mewn traffig ac amcangyfrifir y bydd hyn yn cyrraedd ei bwynt prysuraf yn ystod y gorgyffwrdd rhwng Cam 1 (Gwaith Cloddio a Thyllu) a Cham 2 (Adeiladu – Is-strwythur) y gwaith adeiladu. Cyfanswm nifer y teithiau dyddiol gan gerbydau adeiladu (128 o deithiau un ffordd) a gweithwyr adeiladu (383 o deithiau un ffordd) fyddai 511 (1,022 o deithiau dwy ffordd).

I helpu i liniaru hyn bydd Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP) yn cael ei baratoi gan y Contractwr a'i gytuno gyda'r Cyngor cyn y cyfnod adeiladu. Byddai hwn yn nodi'r amserau a'r dyddiau y caiff cerbydau adeiladu fynd i'r safle, meintiau'r cerbydau a'r llwybrau y bydd y cerbydau yn cael eu defnyddio.

Yn ystod y cam gweithredu, bydd cynnydd mewn Cerbydau Nwyddau Trwm sy'n gysylltiedig â mewnforio deunyddiau a chludo poteli gwydr, gan achosi cynnydd o rhwng 117% a 163% ar hyd Alan Davies Way ond disgwylir y bydd cyfanswm y traffig dim ond yn cynyddu'r llif ar y cysylltiad rhwng 11% a 16%. Ystyrir y bydd y cynnydd fel canran ar yr holl gysylltiadau yn ardal yr astudiaeth ar gyfer y cam adeiladu yn ddibwys.

I leihau effeithiau traffig, mae'r datblygiad arfaethedig yn ceisio sicrhau bod cymaint â phosibl o'r gyfran o deithiau a wneir i'r safle ac oddi yno yn cael eu gwneud drwy fathau cynaliadwy o drafnidiaeth, trwy amrywiaeth o ymyriadau ffisegol a chamau dylanwadu ysgafn fel a ganlyn:

- Gwelliannau i'r droetffordd bresennol o flaen y safle, gan gynnwys gosod wyneb newydd
- Digon o droetffyrdd a chyrbiau is/palmentydd botymog yn y datblygiad i alluogi cerddwyr i symud a chroesi, gan gynnwys i'r de o'r safle lle cynigir gosod croesfan newydd.
- Darparu nifer priodol o fannau parcio beiciau a'r cyfleusterau cysylltiedig gan gynnwys cyfleusterau cadw cotiau, cawodydd a loceri ar gyfer staff.
- Bydd Cynllun Teithio yn cael ei lunio a fydd yn ceisio annog mathau cynaliadwy o drafnidiaeth i/o'r safle.




Ffigur 10: Y gallu i gyrraedd Rhwydwaith Strategol yr A465



Safbwynt 14 Parc Beaufort

## Gweledol

Mae'r asesiad o'r effaith weledol yn ystyried effeithiau gweledol tebygol y datblygiad ar grwpiau derbynyddion allweddol, gan gynnwys cymunedau, defnyddwyr hamdden, ymwelwyr â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a defnyddwyr ffyrdd.

Yn ystod y cam adeiladu, bydd amrywiaeth o effeithiau gweledol ar dderbynyddion oherwydd y gweithgareddau adeiladu yn dibynnu ar eu lleoliad, pellter o'r datblygiad a graddau'r sgrinio gweledol yn sgil y tirffurfiau a'r llystyfiant rhyngddynt.

Byddai adeiladu'r datblygiad arfaethedig yn cyflwyno nodweddion newydd i olygfeydd a fyddai'n achosi newidiadau gweledol. Mae'n debygol y bydd mwy o newid gweledol a golygfeydd uniongyrchol o'r gwaith o sawl lleoliad i dderbynyddion mewn lleoliad uwch o'u cymharu â'r safle. Byddai golygfeydd o gerbydau adeiladu, gweithwyr, gwaith cloddio ar raddfa fawr ac adeiladau wedi'u hadeiladu'n rhannol yn cael eu gweld am gyfnod byrdymor a'r gweithgareddau adeiladu yn rhannol wrthdroadwy. Ychydig iawn o effeithiau ar olygfeydd a fyddai yn ystod y nos, gan na fwriedir cynnal gweithgareddau adeiladu pan fydd hi'n dywyll.

Amlinellodd yr asesiad y byddai cymuned Cendl, ymwelwyr â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a defnyddwyr y B4560 yn gweld effeithiau gweledol sylweddol yn ystod cam adeiladu y datblygiad arfaethedig.

Yn ystod y cam gweithredol, bydd y datblygiad yn creu nodwedd amlwg y byddai cymunedau lleol, defnyddwyr hamdden, ymwelwyr â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a defnyddwyr ffyrdd yn ei weld. Bydd y cyrn simdde yn cyferbynnu â'r olygfa bresennol gan ymddangos ar nenlinellau lleol. O rai safbwyntiau tua'r de, byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael ei weld mewn golygfeydd tuag at Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, gan darfu ar y rhyngwelededd rhwng y Parc Cenedlaethol a'r bryniau lleol. Mae nodweddion yno eisoes, fel peilonau a'r tyrbin gwynt cyfagos, ar Ystad Ddiwydiannol Rasa. Bydd y cyfleuster yn gweithredu 24 awr y dydd a byddai angen golau mewnol ac allanol ar gyfer hynny, ond ychydig iawn o effaith y byddai hyn yn ei chael ar ddefnyddwyr Bannau Brycheiniog yn ystod y nos gan y byddent i'w gweld yng nghyd-destun yr adeiladau diwydiannol ar raddfa fawr sydd eisoes yn bodoli yn Ystad Ddiwydiannol Rasa.

Amlinellodd yr asesiad y byddai effaith sylweddol ar gerddwyr ar Fynydd Carn-y-cefn, cymunedau Rasa, Garnlydan a Chendl, ymwelwyr â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a defnyddwyr y B4560 yn ystod y cam gweithredu.

Bydd y safle'n cael ei dirlunio i helpu i asio'r datblygiad arfaethedig â'r ardal o'i gwmpas ond oherwydd maint a graddfa'r cyfleuster ni fydd hyn yn lliniaru'n llwyr yr effeithiau gweledol a aseswyd. Cynigir defnyddio deydd adlewyrchol llwyd metelig i orchuddio ochr allanol y cyfleuster er mwyn adlewyrchu'r amgylchedd lleol er mwyn helpu i asio'r datblygiad arfaethedig â'r ardal o'i gwmpas. Mae'r rhinwedd adlewyrchol yn galluogi'r cyfleuster i newid ei olwg gyda'r tywydd a'r newid yn y tymhorau. Bydd yr ansoddau hyn yn rhoi cyfle i greu nodwedd 'tirnod' o ansawdd pensaernïol uchel mewn lleoliad allweddol wrth gyrraedd Glynebwy.

## Economaidd-gymdeithasol

Mae'r asesiad economaidd-gymdeithasol yn canolbwyntio ar gyfleoedd cyflogaeth, sgiliau, hyfforddiant ac effeithiau'r gadwyn gyflenwi.

Mae'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli mewn ardal a nodweddir gan ddirywiad cyson yn y boblogaeth, cyfraddau diweithdra uwch na'r cyfartaledd a lefelau cyrhaeddiad addysgol is na'r cyfartaledd. Gweithgynhyrchu sy'n darparu'r sector mwyaf ar gyfer cyflogaeth yn lleol gyda demograffeg busnes yn dangos nifer bach yn unig o gyflogwyr mwy (250+ o weithwyr).

Mae'r ardal yn wynebu nifer o heriau economaidd allweddol gan gynnwys yr angen am fwy o arallgyfeirio economaidd, sefydlogi poblogaeth a gwelliannau i gyrhaeddiad addysgol.
Rhagwelir y bydd adeiladu'r datblygiad arfaethedig yn arwain at effeithiau buddiol cymedrol trwy greu swyddi sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a phrentisiaethau yn yr ardal leol.

Yn ystod y cam gweithredu, rhagwelir y bydd y datblygiad arfaethedig yn creu cyfleoedd cyflogaeth, yn ogystal â bod â rhagor o fanteision trwy greu swyddi anuniongyrchol, hyfforddiant a chyfleoedd prentisiaeth.

O ystyried natur fuddiol yr effeithiau, nid ystyrir bod angen mesurau lliniaru.

## Dŵr

Mae asesiad yr Amgylchedd Dŵr yn ystyried effeithiau posibl y datblygiad arfaethedig ar y dŵr daear a nodweddion sy'n ddibynnol ar ddŵr daear gan gynnwys ffynhonnau, cynefinoedd a chyflenwadau dŵr. Mae'r asesiad yn ystyried yr effeithiau ar lefel, llif ac ansawdd dŵr daear sy'n deillio o'r cloddio dwfn arfaethedig, halogi tir a'r gwaith draenio arfaethedig.

Mae ffurfio ac ailbroffilio Ystad Ddiwydiannol Rasa wedi newid yr amgylchedd dŵr yn sylweddol trwy symud cyrsiau dŵr wyneb ar hyd perimedr yr ystad a gosod gwaith draenio bas i ddal dŵr daear bas. Mae'r ardal i'r gogledd o'r safle yn dal heb ei newid ac mae'n adnabyddus am ei ffynhonnau a'i thir corsiog a allai gefnogi cynefinoedd sy'n ddibynnol ar ddŵr daear.

O dan y safle ceir dyfrhaen, sy'n cefnogi tri man tynnu dŵr daear o fewn ardal yr astudiaeth. Mae Parth Gwarchod Tarddiad, ardal ddynodedig i ddiogelu cyflenwadau dŵr rhag llygredd, hefyd yn gorgyffwrdd rhywfaint ag ardal y safle.

Gyda mesurau lliniaru ar waith yn ystod y gwaith adeiladu (fel y nodir yn y CEMP ac yn dilyn canfyddiadau'r asesiad effaith ar hydroddaeareg) ni ragwelir unrhyw effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd dŵr. Byddai effeithiau uniongyrchol halogi tir yn ystod y gwaith adeiladu ar ansawdd dŵr daear yn cael eu rheoli trwy gynllun rheoli amgylcheddol. Bydd dyluniad gwaith draenio yn cynnwys triniaeth i leihau'r effaith ar yr amgylchedd dŵr.

## Effeithiau Cronnol

Mae'r bennod ar effeithiau cronnol yn cyflwyno asesiad o effeithiau Cyfleuster Gweithgynhyrchu Poteli Gwydr y Ddraig o'u cyfuno â phrosiectau eraill sy'n debygol o gael eu cyflawni yn yr ardal leol.

Nodwyd 19 o brosiectau â'r potensial ar gyfer effeithiau cronnol yn ardal weinyddol y Cyngor. Mae'r rhain i gyd wedi'u lleoli o fewn tua 5km i'r datblygiad arfaethedig.

Ar gyfer pob pwnc amgylcheddol, aseswyd y potensial ar gyfer effeithiau cronnol a daethpwyd i'r casgliad na fyddai unrhyw effeithiau cronnol sylweddol.

# 6. Sut i Gael Gwybod Mwy

Mae'r cais cynllunio llawn, gan gynnwys y Datganiad Amgylcheddol ar gais ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

(https://www.blaenau-gwent.gov.uk/)

Dylid anfon unrhyw sylwadau ar y cais hwn yn uniongyrchol at y Cyngor drwy e-bost (planning@blaenau-gwent.gov.uk), neu yn ysgrifenedig at:

Rheoli Datblygiadau,
Y Swyddfeydd Dinesig,
Y Ganolfan Ddinesig,
Glynebwy,
Gwent
NP23 6XB



Safbwynt 19 PRoW Mynydd Llangynidr

